Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Caergybi
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 1NP

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2017**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymunedol gymysg cyfrwng Saesneg 11-18 a gynhelir gan awdurdod lleol Ynys Môn yw Ysgol Uwchradd Caergybi. Mae 790 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, y mae 96 ohonynt yn y chweched dosbarth. Mae hyn yn cymharu â 794 o ddisgyblion adeg yr arolygiad diwethaf yn Chwefror 2012 pan oedd 99 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref harbwr Caergybi ac mae'n derbyn disgyblion o'r dref a'r pentrefi cyfagos. Mae tua 58% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae tua 23.2% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.1%, ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae gan ryw 24.6% o ddisgyblion angen addysgol arbennig. Mae hyn yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.1%. Mae gan ychydig dros 2% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.4%. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2014. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, a phedwar pennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi yn 2016-2017 yw £4,129 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd yn Ynys Môn yw £4,870 a'r isafswm yw £3,868. Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn y trydydd safle o'r pum ysgol uwchradd yn Ynys Môn o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn ddigonol oherwydd:

- mae perfformiad merched yng nghyfnod allweddol 4 yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg wedi gwella'n sylweddol dros bedair blynedd
- mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas
- mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau darllen datblygedig
- yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda chywirdeb mewn sillafu a gramadeg
- mae bron pob un o'r disgyblion yn ystyriol a chwrtais, ac maent yn ymddwyn yn dda
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi eu cymell yn dda a dangosant agweddau cadarnhaol at ddysgu
- mae presenoldeb wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf
- mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi strwythuredig sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd addas
- mewn llawer o wersi, caiff disgyblion gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau llythrennedd

Fodd bynnag:

- yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad mewn llawer o ddangosyddion allweddol wedi amrywio er 2013 ac mae islaw perfformiad ysgolion tebyg
- at ei gilydd, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o gyfnodau allweddol blaenorol
- mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 4 wedi dirywio am y tair blynedd ddiwethaf
- ni chaiff y ddarpariaeth ar gyfer rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ei chydlynu mewn ffordd sy'n ddigon datblygedig
- mae ansawdd adborth ysgrifenedig gan athrawon mewn pynciau, ac ar eu traws, yn anghyson
- ni chaiff gwybodaeth asesu ei defnyddio'n gyson i gynllunio ar gyfer gwella cyrhaeddiad disgyblion
- nid yw llawer o athrawon yn defnyddio gwybodaeth o gynlluniau addysg unigol yn ddigon da i gynllunio gwersi

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae'r pennaeth wedi cyfleu ei weledigaeth yn glir, ar sail gwella agweddau

disgyblion at ddysgu, sy'n canolbwyntio ar barch, cyfrifoldeb a balchder
- cryfhawyd gallu uwch arweinwyr yr ysgol yn ddiweddar
- mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn glir a chytbwys
- mae gan leiafrif o arweinwyr canol ddisgwyliadau uchel
- mae llywodraethwyr yn darparu cymorth ac ymrwymiad cryf i'r ysgol
- mae'r ysgol wedi sefydlu calendr priodol o weithgareddau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
- mae cynllun gwella'r ysgol yn amlinellu pum blaenoriaeth allweddol ac mae'n cynnwys meini prawf llwyddiant addas, cyfrifoldebau diogel, graddfeydd amser, allbynnau a chostau

Fodd bynnag:

- mae cyflymdra'r gwelliant mewn safonau yn rhy araf
- ni chaiff llawer o staff eu dwyn i gyfrif yn ddigon da
- mae gormod o amrywioldeb yn ansawdd ac effaith yr arweinyddiaeth ar bob lefel
- mae ansawdd hunanarfarnu yn amrywio gormod ar draws yr ysgol
- at ei gilydd, mae gormod o anghysondeb yn ansawdd adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gwella adrannol; o ganlyniad, ceir anghysondeb yn ansawdd yr addysgu a'r asesu ar draws yr ysgol

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn arbennig ar gyfer bechgyn a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A2 Gwella'r ffordd y caiff y ddarpariaeth ei chydlynu i ddatblygu medrau rhifedd a TGCh ar draws yr ysgol

A3 Gwella ansawdd adborth athrawon a sicrhau bod gwybodaeth asesu'n cael ei defnyddio'n effeithiol i helpu disgyblion i wneud cynnydd

A4 Gwella ansawdd cynlluniau dysgu unigol a sicrhau bod pob un o'r staff yn eu defnyddio'n gyson i gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion unigol

A5 Gwella cysondeb mewn arweinyddiaeth ar draws yr ysgol, a dwyn staff i gyfrif yn fwy

A6 Gwella ansawdd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant adrannol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad mewn llawer o ddangosyddion allweddol wedi amrywio er 2013, ac mae islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ar hyn o bryd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi bod islaw deilliannau wedi'u modelu. Mae hyn yn bennaf oherwydd perfformiad cymharol wan yn y pynciau craidd, gyda Saesneg islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg am y pedair blynedd ddiwethaf, a mathemateg islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi disgyn dros y tair blynedd ddiwethaf o fod ymhell uwchlaw deilliannau wedi'u modelu yn 2013 i fod islaw deilliannau wedi'u modelu yn 2016. Mae perfformiad gyda phum cymhwyster A*-A mewn TGAU neu gyfwerth hefyd islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn yr un cyfnod. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o gyfnodau allweddol blaenorol.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 wedi gostwng yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad islaw'r cyfartaledd ar gyfer yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg yn 2016 ar ôl bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol. Mae perfformiad merched yng nghyfnod allweddol 4 yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi gwella'n sylweddol dros bedair blynedd, ac fe wnaethant berfformio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer merched mewn ysgolion tebyg yn 2016. Dirywiodd perfformiad bechgyn ar gyfer yr un dangosydd yn 2016, ac roedd ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn mewn ysgolion tebyg ar ôl bod uwchlaw'r cyfartaledd yn 2015. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud digon o gynnydd erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae llawer o ddisgyblion naill ai'n parhau â'u haddysg mewn ysgol neu goleg addysg bellach.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu cynnydd cyffredinol yng nghyfran y disgyblion yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Ym Mlwyddyn 13, er 2013, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni graddau A*-C mewn Safon Uwch neu gyfwerth wedi amrywio ac mae ymhell islaw'r cyfartaledd ledled Cymru ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf. Dros yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd dair gradd A* neu A wedi dirywio bob blwyddyn ac mae ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Bu ychydig o ostyngiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach a gyflawnir gan ddisgyblion ac mae cyfran y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 3 wedi dirywio'n sylweddol ar gyfer pob un o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas. Maent yn galw gwaith blaenorol i gof yn dda ac yn cymhwyso hyn yn effeithiol i ddysgu newydd i ddyfnhau eu gwybodaeth. Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn rhy oddefgar ac nid ydynt yn ymgysylltu'n ddigon da â'u dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn briodol ar draws yr ysgol. Maent yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barchus a sylwgar pan fydd disgyblion eraill yn mynegi eu syniadau a'u barn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau siarad. Defnyddiant derminoleg sy'n benodol i bwnc gyda hyder, ac maent yn cymryd rhan yn dda mewn trafodaethau gyda'u hathro a disgyblion eraill. Maent yn mynegi eu barn yn glir. Mae rhai disgyblion yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n berthnasol i'r gwaith, ac yn datblygu eu dealltwriaeth yn effeithiol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn amharod i roi atebion llafar pan na fydd yr holi gan yr athro'n cael ei gyfeirio'n ddigon da.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau darllen datblygedig, y maent yn eu defnyddio'n llwyddiannus i ddethol gwybodaeth berthnasol o ystod o ffynonellau. Maent yn darllen ar goedd yn hyderus o ystod addas o destunau. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i ddehongli gwybodaeth a llunio casgliadau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau ysgrifennu yn dda. Yn gyffredinol, maent yn ysgrifennu â sillafu a gramadeg cywir, ac yn datblygu geirfa sy'n benodol i bwnc yn briodol. Yn y mwyafrif o bynciau, maent yn ysgrifennu darnau o ysgrifennu estynedig strwythuredig at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd, er enghraifft wrth drafod agweddau ar drosedd a chosb. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwella'u gwaith ysgrifenedig yn llwyddiannus wrth ymateb i adborth gan yr athro trwy gywiro ac ailddrafftio.

O roi cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu a defnyddio eu medrau rhifedd yn briodol. Maent yn cymhwyso eu medrau mesur a rhif yn dda mewn rhai pynciau fel technoleg a gwyddoniaeth. Mae mwyafrif y disgyblion yn casglu, cofnodi a dadansoddi data yn gymwys ac yn cyflwyno eu canfyddiadau'n gywir mewn siartiau a graffiau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn briodol mewn rhai pynciau ar draws y cwricwlwm. Maent yn ennill dealltwriaeth addas o sut i ddefnyddio taenlenni i greu graffiau a siartiau ac yn defnyddio pecynnau TGCh i wneud cyflwyniadau addas o'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn dda i chwilio am wybodaeth. Defnyddiant ystod addas o feddalwedd a chymwysiadau i wella eu dysgu ac ar gyfer adolygu mewn llawer o bynciau.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae rhai disgyblion yn astudio Cymraeg fel mamiaith, ac mae tua hanner ohonynt yn ennill cymwysterau TGAU, gradd A* i C. Caiff llawer o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer y cwrs llawn mewn Cymraeg ail iaith ac mae'r mwyafrif o'r rhain yn ennill cymwysterau TGAU neu gyfwerth, graddau A* i C. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r gwersi nac mewn gweithgareddau allgyrsiol yn rheolaidd.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac fe gânt eu cynorthwyo'n dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ystyriol, yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Dangosant barch, gofal a phryder am bobl eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi eu cymell yn dda, a dangosant agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae presenoldeb wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf ac mae cyfradd yr absenoldebau parhaus wedi gostwng. Yn 2016, mae'r presenoldeb uwchlaw deilliannau wedi'u modelu ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf, ac mae uwchlaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn y tair blynedd ddiwethaf ac mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn isel.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n heini ac iach ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ymarfer corff a diet. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn dda mewn ystod o weithgareddau allgyrsiol sy'n gysylltiedig â ffitrwydd a chwaraeon, fel rygbi ar gyfer bechgyn, pêl-rwyd ar gyfer merched, ac athletau.

Mae'r cyngor ysgol yn grŵp gweithgar ac mae wedi cael dylanwad cadarnhaol ar rai agweddau ar waith yr ysgol, fel y cod ymddygiad a gwella cyfleusterau. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol ac elusennol, er enghraifft cynhyrchiad cerddorol blynyddol, codi arian ar gyfer ymddiriedolaeth canser a chasglu ar gyfer banciau bwyd. O ganlyniad, maent yn ennill medrau cymdeithasol a medrau bywyd gwerthfawr.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion bron pob un o'i disgyblion. Rhoddir amser priodol i fodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, addysg grefyddol ac addysg bersonol a chymdeithasol.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu o gyfnod allweddol 2 o ganlyniad i bartneriaethau buddiol ag ysgolion cynradd a chymedroli gwaith yn addas rhwng cyfnodau allweddol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig ystod gynhwysfawr o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at welliannau mewn deilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, yn enwedig yn nhrothwy lefel 2.

Mae rhai adrannau wedi gwneud cynnydd gwerth chweil ag integreiddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol yn eu cynlluniau gwaith. Mae'r ysgol yn nodi disgyblion sydd â medrau llythrennedd gwan yn briodol ac yn darparu cymorth

addas, er nad yw cynnydd disgyblion sy'n derbyn y cymorth hwn yn cael ei fonitro'n ddigon da. Mae rhai adrannau'n darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, ond yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd wedi'i datblygu'n ddigonol. Mae rhai adrannau'n cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh.

Ceir ystod addas o weithgareddau chwaraeon a gweithgareddau yn gysylltiedig â phynciau a drefnir gan yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys '5x60' ar gyfer chwaraeon, prosiect peirianneg, a Gwobr Dug Caeredin. Cânt effaith gadarnhaol ar les disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig wedi'i threfnu'n briodol ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cynyddu dealltwriaeth disgyblion o fanteision byw a gweithio yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 4, caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg neu Gymraeg ail iaith. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn gyfyngedig mewn llawer o adrannau.

Mae'r ysgol yn gwneud cyfraniad boddhaol at ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang trwy leiafrif o bynciau, gan gynnwys addysg bersonol a chymdeithasol a Bagloriaeth Cymru. Yn gyffredinol, ni chaiff addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ei chynllunio'n ddigon da ar draws y cwricwlwm.

**Addysgu: Digonol**

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac maent yn fodelau iaith cryf. Mae ganddynt berthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'r disgyblion y maent yn eu haddysgu.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi strwythuredig, gydag amcanion dysgu clir, sy'n helpu disgyblion i wneud cynnydd addas. Mae ganddynt ddisgwyliadau priodol o ddisgyblion ac maent yn rheoli eu hymddygiad yn effeithiol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn dda ac yn cynnal diddordeb y disgyblion. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion disgyblion o bob gallu.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn defnyddio ystod o weithgareddau a thechnegau addysgu i ddarparu cyflymdra priodol a her addas i ddysgu disgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi, mae cyflymdra'r dysgu'n rhy araf ac mae lefel yr her yn annigonol. Yn y gwersi hyn, nid yw disgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn datblygu geirfa sy'n benodol i bwnc disgyblion yn dda. Mewn rhai gwersi, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion i ddatblygu eu medrau rhifedd.

Caiff staff cymorth dysgu eu defnyddio'n dda, lle bo'n briodol, i gyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd dysgu'r disgyblion.

Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio technegau holi'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw holi yn archwilio nac yn ymestyn meddyliau disgyblion yn ddigon da.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar cefnogol a defnyddiol i ddisgyblion. Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu sylwadau ysgrifenedig defnyddiol i helpu disgyblion i wybod beth maent wedi'i wneud yn dda a sut i wella. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig o fewn ac ar draws pynciau yn anghyson. Mae rhai athrawon yn gwneud sylwadau arwynebol ac nid ydynt yn mynd i'r afael â meysydd pwysig i'w gwella. Maent yn cynnig gormod o ganmoliaeth am gwblhau tasgau syml ac nid ydynt yn herio disgyblion sy'n methu ymateb yn briodol i sylwadau athrawon.

Mae'r ysgol wedi rhoi systemau priodol ar waith i fonitro cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n gyson o fewn ac ar draws adrannau i gynllunio ar gyfer gwella cyrhaeddiad disgyblion. O ganlyniad, ni fu digon o effaith ar ddeilliannau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac addysgiadol. Maent yn nodi cryfderau disgyblion a'u meysydd i'w datblygu yn dda, ac maent yn cynnwys targedau perthnasol ar gyfer gwella sy'n benodol i bwnc.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth gref i ddatblygu a chefnogi iechyd a lles ei disgyblion. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion.

Mae'r ysgol yn helpu disgyblion i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw ac mae ganddi drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ystod briodol o weithgareddau allgyrsiol yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad disgyblion mewn chwaraeon, a'u datblygiad diwylliannol a chymdeithasol.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar waith i fynd i'r afael ag absenoliaeth. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus o ran gwella presenoldeb dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae gan yr ysgol bolisi cynhwysfawr ar reoli ymddygiad sydd wedi'i seilio ar ddull adferol. Nid yw ychydig iawn o athrawon yn cymhwyso'r polisi hwn yn ddigon da i ddelio ag achosion o aflonyddwch yn y dosbarth. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar waith i ddelio â bwlio.

Mae cyfleusterau sy'n cynnwys 'Ystafell Pawb', sef canolfan ganolog i gynnig cymorth ac arweiniad, ystafell eithrio fewnol, ac ystafell 'addysgu nad yw'n gysylltiedig ag eithrio', sef canolfan ddiogel ar gyfer disgyblion sydd angen lle ar wahân i'r ystafell ddosbarth, yn darparu dull effeithiol a chydlynol o gefnogi pob agwedd ar ofal a chymorth i ddisgyblion.

Ceir darpariaeth gynhwysol ac effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy 'Barth Dysgu' a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae'n cynnwys adnoddau da ac mae wedi'i staffio'n barhaol, ond mae'n rhy gynnar i farnu'r effaith ar gynnydd disgyblion.

Mae cynlluniau addysgol unigol yn nodi anghenion dysgu disgyblion yn effeithiol. Yn aml, nid yw targedau a meini prawf llwyddiant yn ddigon penodol a mesuradwy, ac nid oes cyfleoedd i fonitro cynnydd yn erbyn targedau. Nid yw llawer o athrawon yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i gynllunio ar gyfer anghenion yr unigolion mewn gwersi.

Caiff darpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad effaith gadarnhaol ar wella iechyd a lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon wedi effeithio ar godi safonau disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn ysgol sydd ag ethos gofalgar, cefnogol a chynhwysol iawn. Mae'n hyrwyddo parch am amrywiaeth yn glir ac mae'n ymgymryd â'i rôl yn y gymuned yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn rhannu ei gwerthoedd, sef parch, cyfrifoldeb a balchder, yn llwyddiannus trwy ei staff â disgyblion a rhieni. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu diogel a difyr a ddangosir yn yr hyn a wnaed yn ddiweddar i ail-frandio'r ysgol ac uwchraddio'r cyfleusterau, er enghraifft trwy arwyddion clir ac ardaloedd newydd i eistedd yn yr awyr agored. Caiff bron pob un o'r disgyblion gyfle priodol i elwa ar y cwricwlwm a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys chwaraeon a theithiau.

Mae'r ysgol yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn dda ac mae arddangosfeydd lliwgar o waith disgyblion ar waliau ac mewn coridorau yn pwysleisio'r balchder yn eu cyflawniad. Caiff offer technoleg gwybodaeth ei ddefnyddio'n dda gan athrawon i gefnogi'r dysgu. Mae'r cyfleusterau ar gyfer chwaraeon a newid yn briodol, yn arbennig yr ardal gemau peli a adeiladwyd yn ddiweddar, sy'n cael ei defnyddio'n rheolaidd.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Ers ei benodi yn 2014, mae'r pennaeth wedi cyfleu ei weledigaeth ar gyfer yr ysgol yn glir. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar wella agweddau disgyblion at ddysgu trwy sefydlu ethos sydd wedi'i seilio ar 'barch, cyfrifoldeb a balchder'. Caiff y weledigaeth ei deall a'i chefnogi'n eang gan ddisgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr. Mae effaith hyn yn dechrau cael ei hadlewyrchu mewn gwelliannau yn ymddygiad a lles disgyblion. Fodd bynnag, mae cyflymdra'r gwelliant mewn perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn rhy araf.

Cryfhawyd gallu uwch arweinwyr yr ysgol yn sgil penodi pedwar pennaeth cynorthwyol ac ailddyrannu cyfrifoldebau strategol yn ddiweddar. Mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn glir erbyn hyn ac yn cynnwys cydbwysedd priodol, ac maent yn cyd-fynd yn agos â phum blaenoriaeth allweddol yr ysgol ar gyfer gwella, sy'n rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Diwygiwyd y strwythur arweinyddiaeth ganol i gyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau gwella. Mae gan leiafrif o arweinwyr canol ddisgwyliadau uchel, maent yn monitro gwaith eu hadrannau'n agos ac yn cynnig her a chymorth cadarn i athrawon i wella ansawdd eu haddysgu.

Mae cyfarfodydd rheolwyr cyswllt yn sicrhau bod uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd tuag at fodloni targedau adrannol. Fodd bynnag, nid yw targedau adrannol yn ddigon manwl gywir ac mae gormod o anghysondeb o ran sut caiff cynnydd yn eu herbyn ei adolygu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i reoli perfformiad ei staff. Mae'r rhain yn nodi anghenion hyfforddi unigol yn dda. Fodd bynnag, ni chaiff llawer o staff eu dwyn i gyfrif yn ddigon da am berfformiad yn erbyn eu targedau.

Mae cyfarfodydd rheolwyr ac adrannol rheolaidd wedi arwain at welliannau mewn cyfathrebu ar draws yr ysgol. Lleiafrif o gofnodion yn unig o'r cyfarfodydd hyn sy'n cynnwys nodi pwyntiau gweithredu penodol yn glir i gyflawni gwelliannau arfaethedig. Nid yw llawer o bwyntiau gweithredu yn nodi dyddiadau terfynau amser yn glir, ac yn aml, nid yw trefniadau adolygu'n ddigon trylwyr. O ganlyniad, mewn llawer o byncïau, nid yw safonau ac ansawdd yr addysgu yn gwella'n ddigon cyflym. At ei gilydd, mae gormod o amrywioldeb yn ansawdd ac effaith yr arweinyddiaeth ar bob lefel.

Mae arweinwyr a staff wedi ymateb yn dda i'r flaenoriaeth genedlaethol i wella llythrennedd. Mae hyn yn amlwg yn safon gadarn medrau llythrennedd disgyblion a arsylwyd mewn gwersi ac yn eu gwaith. Nid yw camau gweithredu i leihau effaith anfantais, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, wedi cael digon o effaith ar safonau a chynnydd.

Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth ac ymrwymiad cryf i'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac maent yn darparu lefel addas o her i uwch arweinwyr ar draws llawer o agweddau ar waith yr ysgol.

## Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r ysgol wedi sefydlu calendr priodol o weithgareddau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Fodd bynnag, mae ansawdd hunanarfarnu yn amrywio gormod ar draws yr ysgol, ac o ganlyniad, nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi cael effaith ddigonol o ran gwella safonau ar draws yr ysgol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn arfarnol ac yn darparu dadansoddiad addas o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r ysgol yn cynnal gwerthusiad gonest o ddata. Mae'n ystyried tystiolaeth uniongyrchol berthnasol o ddata, arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. Mae uwch arweinwyr yn arfarnu ansawdd addysgu a safonau yn rhy gadarnhaol mewn rhai meysydd.

Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn darparu dadansoddiad defnyddiol o ddata perfformiad. Nid ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigonol i safbwyntiau disgyblion nac yn ystyried effaith y ddarpariaeth a'r addysgu yn ddigon da.

Mae'r cynllun gwella ysgol gyfan yn amlinellu pum blaenoriaeth allweddol ac mae'n cynnwys meini prawf llwyddiant addas, cyfrifoldebau staff, graddfeydd amser, allbynnau a chostau. Mae'n cysylltu'r rhan fwyaf o feysydd i'w datblygu a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu yn glir. Mae llawer o feysydd i'w datblygu a nodwyd mewn cynlluniau hunanarfarnu adrannol yn cysylltu'n glir â chynlluniau gwella. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r cynlluniau hyn yn nodi camau gweithredu addas na meini prawf llwyddiant perthnasol, nac yn darparu digon o fanylion am y costau dan sylw. At ei gilydd, mae gormod o anghysondeb yn ansawdd yr adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gwella adrannol. O ganlyniad, nid yw perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi gwella ddigon.

Mae arweinwyr canol yn cyfarfod yn rheolaidd â'r uwch arweinydd sy'n gyfrifol am eu hadrannau i adolygu eu cynlluniau gwella. Mae'r cyfarfodydd adolygu hyn yn canolbwyntio'n briodol ar ddata, cynnydd tuag at dargedau a materion adrannol eraill. Nid yw cofnodion y cyfarfodydd hyn yn nodi nac yn arfarnu camau gweithredu dilynol yn ddigon da.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod eang o bartneriaid. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at wella lles disgyblion a chodi safonau.

Mae trefniadau partneriaeth gyda chonsortiwm sy'n cynnwys coleg lleol ac ysgolion uwchradd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddilyn ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol sy'n cyfrannu'n dda at fodloni anghenion disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16. Mae trefniadau i fonitro ansawdd y ddarpariaeth hon yn gynhwysfawr.

Ceir partneriaethau cryf ag ysgolion cynradd lleol. Mae staff o ysgolion cynradd partner yn ymweld â'r ysgol i graffu ar waith a chyfweld â chyn ddisgyblion. Mae'r broses hon yn nodi'r cynnydd a wna'r disgyblion hyn yn dda. Yn ychwanegol, ceir cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ysgolion cynradd ymweld â'r ysgol, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn arbrofion gwyddoniaeth, ac ymgymryd â 'her fathemateg'. Mae trefniadau pontio yn effeithiol ac yn helpu disgyblion i drosglwyddo'n llwyddiannus i Flwyddyn 7.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â rhaglen ymgysylltu â phobl ifanc sy'n canolbwyntio ar feithrin medrau gwaith tîm ac arwain. Mae hyn wedi helpu i wella lles a chyrhaeddiad disgyblion. Yn ychwanegol, fel rhan o gynllun addysg peirianneg, bu tîm o'r ysgol yn gweithio'n dda â chwmni awyrennau i nodi a datblygu ffyrdd o wella oes batris sy'n cael eu gosod mewn awyren.

Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am faterion ysgol trwy ddefnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau. Fodd bynnag, nid yw ymgynghori â rhieni am waith yr ysgol wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i fodloni gofynion y cwricwlwm a chefnogi dysgu. Mae'n rheoli ei hadnoddau staffio a'i hadnoddau ariannol yn effeithlon. Mae'r ysgol yn dyrannu ei chyllid a'i hadnoddau i roi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae’r rhan fwyaf o staff yn elwa ar ystod briodol o weithgareddau datblygiad proffesiynol. Mae’r rhain yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu cynllunio a’u cyflwyno ar y cyd ag ysgolion y consortiwm lleol. Mae buddsoddiad yr ysgol mewn cyfleuster addysgu a dysgu arbenigol sy’n cynnwys offer da wedi galluogi staff i elwa ar sesiynau hyfforddi amser real. Mae’n rhy gynnar i fesur effaith ehangach y datblygiad hwn ar addysgu ar draws yr ysgol, ac ar safonau.

